Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Adroddiad am ddigwyddiad llygredd: Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy 2024

## Cynnwys


Cyflwyniad ....2
Data sy'n ymwneud â digwyddiadau llygredd....2
Yr hyn a gwmpesir yn yr adroddiad hwn ....3
Data Dŵr Cymru ....4
Cyfanswm y digwyddiadau llygredd ....4
Digwyddiadau llygredd go iawn ....4
Digwyddiadau llygredd wedi'u normaleiddio ....5
Dadansoddiad o asedau....6
Dadansoddiad o asedau dŵr gwastraff....7
Dadansoddiad o asedau cyflenwad dŵr....9
Digwyddiadau difrifol ....10
Digwyddiadau hunanadroddedig....10
Data Hafren Dyfrdwy....11
Cyfanswm y digwyddiadau llygredd ....11
Digwyddiadau llygredd go iawn ....11
Digwyddiadau llygredd wedi'u normaleiddio ....12
Dadansoddiad o asedau....13
Dadansoddiad o asedau dŵr gwastraff....14
Dadansoddiad o asedau cyflenwad dŵr....15
Digwyddiadau difrifol ....15
Digwyddiadau hunanadroddedig....15
Ein hymateb....16
Gorfodi ....16
Dŵr Cymru....16
Hafren Dyfrdwy....17
Ein camau rheoleiddio ynghylch digwyddiadau llygredd ....17

# Cyflwyniad

Ni yw Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), y rheoleiddiwr amgylcheddol ar gyfer cwmnïau dŵr yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno data ynghylch digwyddiadau llygredd ar gyfer Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy.

Mae Dŵr Cymru yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr. Mae'r data yn yr adroddiad hwn yn cwmpasu'r cwmni cyfan oni nodir yn wahanol. Ar gyfer Hafren Dyfrdwy, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2018, rydym yn cynnwys data hanesyddol perthnasol gan Severn Trent Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.

Dyma ein hadroddiad cyntaf sy'n ymdrin â digwyddiadau llygredd yn benodol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddata sy'n ymwneud â llygredd ac nid yw'n disodli ein hadroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn hydref 2025.

Gweld adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol Dŵr Cymru

Gweld adroddiadau perfformiad amgylcheddol blynyddol Hafren Dyfrdwy

## Data sy'n ymwneud â digwyddiadau llygredd

Fel rheoleiddwyr, rydym yn ymateb i ddigwyddiadau llygredd, gan gynnwys y rhai o asedau cwmnïau dŵr. Rydym yn cofnodi ac yn asesu'r digwyddiadau hyn i olrhain tueddiadau a hybu perfformiad gwell, gyda'r nod o leihau llygredd a rhoi terfyn ar ddigwyddiadau difrifol. Mae pob digwyddiad wedi'i ddosbarthu gan ddefnyddio pedwar categori effaith amgylcheddol:

- **Categori 1 (Sylweddol):** Effaith neu ddifrod niweidiol sylweddol, difrifol, parhaus neu helaeth i'r amgylchedd, pobl neu eiddo, neu i asedau, gweithrediad neu enw da CNC;
- **Categori 2 (Arwyddocaol):** Effaith neu ddifrod niweidiol arwyddocaol i'r amgylchedd, pobl neu eiddo, neu i asedau, gweithrediad neu enw da CNC;
- **Categori 3 (Bach):** Effaith neu ddifrod niweidiol bach neu finimalaidd i'r amgylchedd, pobl neu eiddo, neu i asedau, gweithrediad neu enw da CNC;
- **Categori 4 (Dim effaith):** Digwyddiad nad oedd ganddo unrhyw effaith amgylcheddol na sefydliadol.

Mae digwyddiadau Categori 4 wedi'u heithrio o'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn.

## Yr hyn a gwmpesir yn yr adroddiad hwn

Mae’r adroddiad hwn yn defnyddio data o 1 Ionawr 2015 i 31 Rhagfyr 2024 ac yn canolbwyntio ar dri maes allweddol:

1. **Cyfanswm y digwyddiadau llygredd**

   Trosolwg o bob digwyddiad llygredd a achosir gan asedau carthffosiaeth a chyflenwad dŵr cwmnïau dŵr, gan gynnwys gweithfeydd trin dŵr gwastraff, gweithfeydd trin dŵr, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, gorsafoedd pwmpio a phibellau sy’n cludo dŵr dan bwysau i dir uwch.

2. **Digwyddiadau llygredd difrifol**

   Yn canolbwyntio ar ddigwyddiadau Categori 1 a 2 a achosodd effeithiau neu ddifrod sylweddol neu arwyddocaol i’r amgylchedd, pobl neu eiddo.


3. **Hunanadrodd am ddigwyddiadau**

   Asesiad o ganran y digwyddiadau a adroddwyd gan y cwmnïau dŵr eu hunain. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr hunanadrodd cymaint o ddigwyddiadau llygredd â phosibl. Mae cyfraddau hunanadrodd uchel yn dangos eu bod yn deall eu rhwydweithiau, yn eu monitro’n effeithiol, ac yn gallu ymateb yn gyflym i leihau niwed amgylcheddol.

# Data Dŵr Cymru

## Cyfanswm y digwyddiadau llygredd


### Digwyddiadau llygredd go iawn




| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad dŵr | 0 | 7 | 12 | 22 | 28 | 65 | 79 | 45 | 25 | 23 |
| Carthffosiaeth | 109 | 107 | 103 | 101 | 94 | 77 | 84 | 89 | 107 | 132 |
| Cyfanswn | 109 | 114 | 115 | 123 | 122 | 142 | 163 | 134 | 132 | 155 |

Dros y degawd diwethaf, mae nifer y digwyddiadau llygredd a achosir gan Dŵr Cymru yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu’n gyffredinol. Yn 2024, profodd y cwmni’r nifer uchaf o ddigwyddiadau llygredd carthion ers 2015, yn ogystal â’r ail gyfanswm uchaf o ddigwyddiadau llygredd yn ystod y cyfnod hwn.


## Digwyddiadau llygredd wedi'u normaleiddio




Mae'r graff hwn yn dangos digwyddiadau llygredd a achosir gan asedau carthffosiaeth Dŵr Cymru yn unig. Mae nifer y digwyddiadau wedi'i normaleiddio yn ôl cyfanswm hyd carthffosydd Dŵr Cymru, a oedd yn 36,259 km yn 2017/18 ar draws Cymru a Lloegr. Mae normaleiddio'r data yn caniatáu cymhariaeth deg â chwmnïau dŵr eraill sy'n gweithredu dros ardaloedd o wahanol feintiau.

Rhwng 2015 a 2020, gostyngodd digwyddiadau llygredd fesul uned o hyd carthffos, ond maent wedi codi bob blwyddyn dros y pedair blynedd diwethaf, gan gyrraedd uchafbwynt deng mlynedd o 36 digwyddiad fesul 10,000 km o garthffos yn 2024.


## Dadansoddiad o asedau






Mae dadansoddiad o asedau Dŵr Cymru uchod yn dangos mai carthffosydd budr, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, gweithfeydd trin dŵr, gorsafoedd pwmpio a'r system dosbarthu dŵr yw'r pum prif ffynhonnell o ddigwyddiadau llygredd dros y degawd diwethaf.


Mae'r graffiau asedau isod yn dangos, er bod digwyddiadau o garthffosydd budr a gweithfeydd trin dŵr wedi gostwng yn gyffredinol, bod llygredd o gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, gorsafoedd pwmpio a'r system dosbarthu dŵr yn cynyddu.


# Dadansoddiad o asedau dŵr gwastraff


















Gorsaf bwmpio
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024


Gorsaf bwmpio a fabwysiadwyd
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024



Carthffos fudr
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024



Carthffos fudr a fabwysiadwyd
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024



Gollyngfa ddŵr wyneb
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024


Arall - dŵr gwastraff
60
50
40
30
20
10
0
2015 2016 2017 2018 2019 2020 2021 2022 2023 2024


## Dadansoddiad o asedau cyflenwad dŵr







## Digwyddiadau difrifol




Er gwaethaf gostyngiad yn nifer y digwyddiadau difrifol, o un yn 2024, dros y pum mlynedd diwethaf, mae tueddiadau'n dangos cynnydd yn nifer y digwyddiadau difrifol mewn perthynas â Dŵr Cymru.

## Digwyddiadau hunanadroddedig




Dros y deng mlynedd diwethaf, mae hunanadrodd digwyddiadau wedi amrywio, gan gyrraedd uchafbwynt o 80% yn 2020 cyn gostwng wedi hynny. Fodd bynnag, mae hunanadrodd ar gyfer gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff wedi dangos gwelliant cyson yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

# Data Hafren Dyfrdwy

## Cyfanswm y digwyddiadau llygredd


### Digwyddiadau llygredd go iawn




| | | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwad dŵr | 1 | 2 | 3 | 2 | 2 | 1 | 6 | 2 | 3 | 3 |
| Carthffosiaeth | 9 | 8 | 6 | 4 | 2 | 5 | 2 | 2 | 1 | 2 |
| Cyfanswn | 10 | 10 | 9 | 6 | 4 | 6 | 8 | 4 | 4 | 5 |

Dros y degawd diwethaf, mae digwyddiadau llygredd o asedau carthffosiaeth a dŵr Hafren Dyfrdwy wedi gostwng yn gyffredinol, gyda chynnydd byr yn ystod 2020 a 2021, cyn i nifer y digwyddiadau parhau i ostwng eto yn y tair blynedd diwethaf.


## Digwyddiadau llygredd wedi'u normaleiddio




Mae'r graff hwn yn dangos digwyddiadau llygredd a achoswyd gan asedau carthffosiaeth Hafren Dyfrdwy yn unig. Mae nifer y digwyddiadau wedi'i normaleiddio yn ôl cyfanswm hyd carthffosydd Hafren Dyfrdwy, a oedd yn 502 km yn 2017/18. Mae normaleiddio'r data yn caniatáu cymhariaeth deg â chwmnïau dŵr eraill sy'n gweithredu dros ardaloedd o wahanol feintiau.

Gostyngodd digwyddiadau llygredd fesul uned o hyd carthffos rhwng 2015 a 2019, cododd yn sydyn yn 2020, ac yna gostyngodd eto. Fodd bynnag, yn 2024, dyblodd nifer y digwyddiadau o'i gymharu â 2023, er eu bod yn parhau i fod islaw'r lefelau cyn 2019.


## Dadansoddiad o asedau






Mae'r dadansoddiad o asedau Hafren Dyfrdwy uchod yn dangos bod digwyddiadau llygredd yn deillio o amrywiol asedau. Y prif achosion dros y deng mlynedd diwethaf yw'r system dosbarthu dŵr, gorlifoedd carthffosiaeth gyfun, carthffosydd budr, gweithfeydd trin gwastraff dŵr, gweithfeydd trin dŵr a gorsafoedd pwmpio.


Mae'r graffiau asedau isod yn dangos bod digwyddiadau sy'n ymwneud â gorlifoedd carthffosiaeth gyfun a charthffosydd budr wedi gostwng yn gyffredinol, ac nid yw gorsafoedd pwmpio wedi achosi unrhyw ddigwyddiadau mewn chwe blynedd. Y system dosbarthu dŵr yw'r prif achos o hyd, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2021, tra bod pob digwyddiad sy'n ymwneud â gweithfeydd trin dŵr gwastraff wedi digwydd yn y pum mlynedd diwethaf.

## Dadansoddiad o asedau dŵr gwastraff








## Dadansoddiad o asedau cyflenwad dŵr





# Digwyddiadau difrifol

Ers sefydlu Hafren Dyfrdwy yn 2018, nid oes unrhyw ddigwyddiadau difrifol wedi'u cofnodi.

# Digwyddiadau hunanadroddedig




Mae hunanadrodd Hafren Dyfrdwy wedi amrywio, gyda dirywiad cyffredinol yn y deng mlynedd diwethaf. Fodd bynnag, ers 2015, mae Hafren Dyfrdwy wedi adrodd am bob digwyddiad mewn gorsafoedd pwmpio a gweithfeydd trin dŵr gwastraff ac eithrio un digwyddiad yn 2021.

# Ein hymateb

Rydym yn dwyn cwmnïau dŵr i gyfrif pan fyddant yn methu â chyrraedd ein safonau. Mae'r adrannau canlynol yn nodi'r camau rheoleiddio rydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â thanberfformiad a gyrru gwelliannau.

## Gorfodi


Mae ein [polisi gorfodi a sancsiynau](#) yn sicrhau bod troseddau amgylcheddol yn cael eu trin yn deg, yn gadarn ac yn gymesur er mwyn atal niwed pellach. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o offer a amlinellir yn ein [hopsiynau ymateb i droseddau](#), o gyngor ac arweiniad a rhybuddion i sancsiynau sifil ac erlyniadau, a ddefnyddir yn seiliedig ar ddifrifoldeb y drosedd, parodrwydd y troseddwr i gydymffurfio a budd y cyhoedd.

Nod ein hymyriadau gorfodi yw atal troseddau, adfer yn sgil niwed, atal achosion o dorri amodau yn y dyfodol, a chefnogi cydymffurfedd.

Gellir mynd i'r afael â throseddau bach neu anfwriadol drwy addysg neu gamau gwirfoddol. Yn gyffredinol, ystyrir erlyniad fel dewis olaf, a dim ond mewn achosion pan fo dulliau gorfodi eraill wedi bod yn aneffeithiol neu pan fo'r drosedd yn arbennig o ddifrifol y caiff ei ddilyn.

Mae ymchwiliadau cymhleth yn cymryd amser, gyda chanlyniadau'n cael eu hadrodd amdanynt mewn blynyddoedd diweddarach.

### Dŵr Cymru



Mae'r graff uchod yn dangos y camau gorfodi rydym wedi'u cymryd yng Nghymru, sy'n fwy difrifol na rhybuddion, yn erbyn Dŵr Cymru  ers 2015. Mae hyn mewn ymateb i ddigwyddiadau llygredd a diffyg cydymffurfio â thrwyddedau amgylcheddol. Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi cyhoeddi pedwar hysbysiad, 24 rhybuddiad ffurfiol a deg erlyniad. Mae Dŵr Cymru wedi cael gorchymyn i dalu dirwyon erlyniad o £1,930,427. Rydym hefyd wedi cytuno i ymgymeriadau gorfodi, sydd wedi arwain at gyfraniad o £174,500 gan Dŵr Cymru i elusennau a phrosiectau amgylcheddol lleol ers 2015.

Am fanylion ynghylch erlyniadau Dŵr Cymru a ddaeth i ben yn ddiweddar, cyfeiriwch at y tudalennau gwe canlynol:

Cyfoeth Naturiol Cymru / Dedfrydu Dŵr Cymru am lygru amgylchedd gwarchodedig Gwastadeddau Gwent

Cyfoeth Naturiol Cymru / Dŵr Cymru Welsh Water yn cael dirwy £1.35m am dros 800 toriad i drwyddedau gollwng carthion yn dilyn achos pwysig

### Hafren Dyfrdwy

Ers sefydlu Hafren Dyfrdwy, nid ydym wedi gorfod cymryd unrhyw gamau gorfodi sy'n fwy difrifol na rhybudd yn eu herbyn yn dilyn digwyddiadau llygredd neu ddiffyg cydymffurfio â thrwyddedau amgylcheddol.

## Ein camau rheoleiddio ynghylch digwyddiadau llygredd

Ein rôl ni yw rheoleiddio'r cwmnïau dŵr i wneud yn siŵr eu bod nhw'n cydymffurfio â'r gyfraith ac yn amddiffyn yr amgylchedd. Eu cyfrifoldeb nhw yw bodloni'r amodau a osodwn yn eu trwyddedau gollwng dŵr a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

Fel y rheoleiddiwr, byddwn yn chwarae ein rhan i wella perfformiad cwmnïau dŵr trwy weithio yn y meysydd canlynol:

- Bydd gofyniad cyfreithiol newydd o dan y Ddeddf Mesurau Arbennig Dŵr, cynlluniau ar gyfer lleihau digwyddiadau llygredd, yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr nodi sut y byddant yn lleihau llygredd o bob ased, gan gynnwys gorlifoedd storm. Rydym yn datblygu canllawiau ar gyfer cwmnïau dŵr a byddwn yn eu cyhoeddi erbyn diwedd 2025. Rhaid i gwmnïau dŵr gael cynlluniau ar gyfer lleihau digwyddiadau llygredd ar waith erbyn mis Ebrill 2026. Bydd y cynlluniau hyn yn gosod targedau iddynt i gyflawni gwelliannau blynyddol.
- Rydym wrthi'n ceisio gwneud cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff yn statudol yng Nghymru. Byddant yn rhan allweddol o benderfyniadau cynllunio a buddsoddi hirdymor. Byddwn yn sicrhau bod cynlluniau rheoli draenio a dŵr gwastraff cwmnïau dŵr yn uchelgeisiol, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac yn cyd-fynd â nodau amgylcheddol a hinsawdd ehangach. Byddant yn galluogi cwmnïau dŵr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer y 25 mlynedd nesaf, gan fynd i'r afael â heriau fel twf y boblogaeth, capasiti draenio, newid hinsawdd a chydnerthedd asedau.

- Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod cwmnïau dŵr yn cyflawni eu hymrwymiadau buddsoddi o fewn Cynllun Rheoli Asedau 8 (2025–2030), wedi'u harwain gan y blaenoriaethau a osodwyd drwy Adolygiad Pris Dŵr 24, sef y broses adolygu prisiau a arweinir gan Ofwat sy'n gosod targedau sy'n ymwneud â pherfformiad a chyllid ar gyfer cwmnïau dŵr. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cynnwys lleihau llygredd, diogelu ansawdd dŵr, cynyddu gwydnwch i newid hinsawdd, a gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a'r amgylchedd. Ein rôl ni yw dwyn cwmnïau i gyfrif a sicrhau bod y ddarpariaeth yn amserol ac yn dryloyw ac yn cyflawni canlyniadau amgylcheddol go iawn.
- Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithgarwch cydymffurfio, gan gynyddu ein hasesiad cydymffurfio o ollyngiadau a ganiateir gan gwmnïau dŵr drwy ein Cynllun Gwasanaeth Rheoleiddio. Rydym wedi cynyddu adnoddau o 2025 i gefnogi'r gwaith rheoleiddio craidd hwn. Drwy wella cydymffurfedd â thrwyddedau, gallwn helpu i atal digwyddiadau llygredd o ollyngiadau a ganiateir drwy sicrhau cydymffurfedd.
- Rydym yn gweithredu asesiad perfformiad amgylcheddol newydd ar gyfer 2026-30 gyda metrigau ychwanegol i sicrhau mwy o graffu.
- Rydym yn symud at ddull sy'n seiliedig ar risg o ran sut i ymdrin â digwyddiadau, neu a ddylem ymateb iddynt ai peidio, yn seiliedig ar yr effaith bosibl ar yr amgylchedd. Mae'r newid hwn yn ein dull o weithredu yn golygu efallai na fydd ymateb ar unwaith i adroddiadau os nad oes angen ymyrraeth uniongyrchol. Yn hytrach, gellir mynd i'r afael â nhw drwy waith rheoleiddio, gorfodi neu atal llygredd arferol, sy'n ein galluogi i ymateb yn well i ddigwyddiadau pan fo angen ein hymyrraeth i amddiffyn yr amgylchedd. Bydd unrhyw benderfyniadau ynghylch sut rydym yn ymateb i adroddiad am ddigwyddiad bob amser yn cael eu llywio gan risg a gwybodaeth sy'n ymwneud â'r amgylchedd.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Ofwat, i sbarduno gwelliannau ym mherfformiad cwmnïau dŵr, gan gynnwys lleihau digwyddiadau llygredd.
- Rydym yn gwella sut rydym yn casglu ein data drwy ein gwaith platfform cwsmeriaid a'n strategaeth TG ar gyfer 2030.
- Rydym yn asesu sut y gallwn ddatblygu offer i wneud y mwyaf o'n gallu i ddadansoddi data, gan weithio gyda rheoleiddwyr eraill i ddysgu o arfer gorau.
- Byddwn yn parhau i ddwyn cwmnïau dŵr i gyfrif i sicrhau gwelliannau o ran perfformiad ar bob lefel, o staff rheng flaen i uwch-arweinwyr. Byddwn hefyd yn hybu cydweithio ar draws y sector, gan annog cwmnïau i rannu arferion gorau sy'n darparu buddion amgylcheddol.

DIWEDD